**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

(CLA(4)-01-12

**CLA74**

**Adroddiad drafft y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Teitl: The Eels (England and Wales) (Amendment) Regulations 2011 (Saesneg yn unig)**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliadau 6 a 7 o *The Eels (England and Wales) Regulations 2009* ('y prif Reoliadau') (Saesneg yn unig), sy'n rhoi ar waith Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1100/2007 sy'n llunio mesurau ar gyfer adfer niferoedd y llysywen Ewropeaidd.
Mae'r gwelliannau'n cywiro gwallau yn y prif Reoliadau a nodwyd gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol wrth graffu ar y Rheoliadau hynny. Ar y pryd, nid oedd offerynnau statudol a oedd yn destun gweithdrefn yn San Steffan yn cael eu craffu arnynt gan bwyllgor cyfatebol yn y Cynulliad Cenedlaethol.

**Materion technegol: craffu**

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

(1) Yn Saesneg yn unig y cafodd y Rheoliadau hyn eu gwneud, gan eu bod yn rheoliadau cyfun ar gyfer Cymru a Lloegr sy'n destun y weithdrefn negyddol yn San Steffan.
[Rheol Sefydlog 21.2(ix) - nid yw'r rheoliadau wedi'u gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg]

**Rhinweddau: craffu**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**Y Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Rhagfyr 2011**